| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **30 Medi 2014** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | **Y Cynghorydd Eryl Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg** |
| **Teitl:** | **Polisi Cymhwysedd Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn ceisio cymeradwyaeth i weithredu mannau casglu ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd ac yn egluro'r polisi presennol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae cyllideb cludiant cyfredol wedi gorwario ac yn y broses gosod cyllideb gofynnodd yr Aelodau am gael ei hadolygu. Mae'r papur hwn yn ceisio cymeradwyaeth i gyflwyno mannau casglu canolog ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd yn unig. Bydd arolygon pellach yn cael eu cyflawni yn ôl cyfarwyddyd yr Aelodau.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Yr argymhellion ar gyfer y Cabinet yw:-

(i) Diwygio'r polisi cyfredol i gyflwyno mannau casglu canolog ar gyfer yr holl ddisgyblion ysgolion uwchradd;

(ii) Nodi'r polisi llawn yn atodiad 1 fydd yn darparu cludiant am ddim o'r man casglu dynodedig i'r ysgol uwchradd addas agosaf.

(iii) Caniatáu i ddisgyblion ysgol uwchradd cyfredol barhau i dderbyn cludiant am ddim am weddill eu bywyd ysgol statudol o fan casglu canolog;

(iv) Nodi nad oes newid i gludiant disgyblion cynradd;

(v) Bod y Cabinet yn cytuno, y dylid gweithredu'r argymhellion uchod ar unwaith yn unol â rheolau gweithdrefn alw i mewn y Cyngor sy'n rhan o'r cyfansoddiad, oherwydd yr amgylchiadau a nodwyd ym mharagraff 4.1 isod;

(vi) Bod y Cabinet yn gofyn i Grŵp Strategol Addysg Gymraeg adolygu categori iaith yr holl ysgolion a chyflwyno adroddiad i'r pwyllgor Archwilio.

## 4. Manylion am yr adroddiad.

<u>Proses Ymgynghori</u>

4.1 Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar y polisi newydd arfaethedig ar 11 Awst 2014. Mae'n rhaid mabwysiadu'r polisi newydd erbyn 1 Hydref 2014 i sicrhau y diwallir y rheoliadau. Mae hyn yn unol â rheoliad 4 o Reoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009.

*"Os yw Awdurdod Lleol yn penderfynu newid neu roi'r gorau i ddarparu cludiant dewisol, mae'n rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi polisi newydd cyn 1 Hydref yn y flwyddyn cyn y flwyddyn academaidd y bydd y newidiadau yn dod i rym."*

4.2 Nid oes unrhyw ofynion penodol o ran ymgynghoriad fel hyn a gwnaed penderfyniad i gyhoeddi'r cynigion ar wefan Cyngor Sir Ddinbych ac ar y cyfryngau cymdeithasol a chafodd copi caled ei ddosbarthu'n uniongyrchol i rieni pob plentyn sy'n derbyn Cludiant i'r Ysgol ar hyn o bryd. Cafodd copïau o ddogfennau'r ymgynghoriad eu dosbarthu hefyd i swyddogion perthnasol ac i'r holl Aelodau Etholedig drwy e-bost.

4.3 Cafodd y budd-ddeiliaid canlynol naill ai gopi caled neu ddolen ar e-bost i wefan Cyngor Sir Ddinbych;

- *Cyngor Sir Conwy; Cyngor Sir y Fflint; Cyngor Sir Wrecsam*
- *Yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Llanelwy ac Awdurdod Esgobaethol Catholig Wrecsam;*
- *Penaethiaid; Rheolwyr Busnes a Chyllid Ysgolion*
- *Cadeiryddion a Chlercod Llywodraethwyr pob ysgol;*
- *Pob un o Aelodau Cyngor Sir Ddinbych;*
- *Aelodau Cynulliad a'r Aelodau Seneddol perthnasol;*
- *Staff Mewnol Perthnasol;*
- *Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned;*
- *Grŵp Strategol Addysg Gymraeg;*

4.4 Roedd yr holl adborth a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod rhybudd yn cael ei wneud yn ysgrifenedig neu drwy e-bost. Derbyniwyd cyfanswm o 68 eitem o adborth.

<u>Mannau Casglu Canolog</u>

4.5 Byddai gweithredu mannau casglu canolog yn y sector cynradd yn golygu arbedion o tua £30mil fel y nodwyd yn Atodiad 2. Byddai hyn yn effeithio ar tua 352 o ddisgyblion. Mae'r arbediad bychan yn adlewyrchu'r ffaith bod nifer o lwybrau teithio peryglus yn arwain at nifer o'n ysgolion cynradd felly byddai'n rhaid i ni barhau i gynnig rhyw fath o gludiant i bwyntiau casglu ar rai o'r llwybrau teithio. Felly argymhellir nad ydym yn cyflwyno mannau casglu canolog ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd.

4.6 Byddai gweithredu mannau casglu canolog yn y sector uwchradd yn golygu arbedion o tua £272 mil fel y nodwyd yn Atodiadau 3 a 4. Byddai hyn yn effeithio ar tua 232 o ddisgyblion. Felly argymhellir ein bod yn cyflwyno mannau casglu canolog ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd.

<u>Terfynau Amser Gweithredu</u>

4.7 Gweithredu mannau casglu canolog yw'r unig newid yn y polisi. Byddai'n weithredol o'r 1 Medi 2015 ar gyfer holl ddisgyblion ysgolion uwchradd, os yw'n cael ei fabwysiadu.

4.8 Argymhellir y cyflwynir cyfnod pontio, lle bydd disgyblion nad ydynt yn mynychu eu hysgol agosaf (oherwydd anomaleddau hanesyddol), yn parhau yn gymwys ar gyfer cludiant i'w hysgol gyfredol er mwyn osgoi amharu ar eu haddysg. Bydd mannau casglu canolog yn berthnasol ar gyfer y disgyblion hyn. Mae angen i'r Aelodau fod yn ymwybodol y byddai ceisiadau newydd gan frodyr neu chwiorydd yn aflwyddiannus dan y polisi newydd.

<u>Polisi a phroses</u>

4.9 Dylid nodi fod y Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol cyfredol yn fud mewn nifer o ardaloedd ac mae wedi achosi nifer o anomaleddau hanesyddol yn y system gyfredol. Mae'r polisi'n dryloyw yn awr a gwneir pob ymdrech i sicrhau fod y rhieni'n deall y goblygiadau o ran cludiant wrth wneud cais am le mewn ysgol.

4.10 Mae holl ymatebion yr ymgynghoriadau ar gael i Aelodau'r Cabinet. Mae'r prif faterion a nodwyd fel a ganlyn:

1. **Dylid trin ysgolion Categori 1 fel yr unig ddewis cyfrwng Cymraeg wrth asesu cymhwysedd am gludiant.**
   Mae'r polisi cyfredol yn cynnwys ysgolion categori 1 a 2, felly mae effaith hyn yn sylweddol gan y byddai'n golygu y byddai nifer fawr o ddisgyblion ysgolion categori 2 (Dinas Brân a Brynhyfryd) yn gymwys ar gyfer cludiant i'r ysgolion categori 1 agosaf. Mae 339 o ddisgyblion yn ffrwd Gymraeg Ysgol Brynhyfryd ar hyn o bryd a 107 o ddisgyblion yn ffrwd Gymraeg Ysgol Dinas Brân. Gallai hyn gael effaith andwyol ar niferoedd cofrestredig a chostau cludiant yn y dyfodol pe bai'n cael ei fabwysiadu.

2. **Terfynau amser ymgynghori**
   Nid oes unrhyw ofynion penodol yn ymwneud ag ymgynghori. Gwnaed penderfyniad i gyhoeddi'r cynigion yn ystod gwyliau'r ysgol ac ysgrifennu'n uniongyrchol at rieni'r plant sy'n derbyn cludiant am ddim ar hyn o bryd er mwyn sicrhau cyfnod ymgynghori hirach. Rydym wedi derbyn 68 o ymatebion ac yn ystyried na fyddai ymestyn y cyfnod ymgynghori yn cyflwyno unrhyw faterion eraill.

3. **Mannau Casglu Canolog**
   Mae'r adborth wedi bod yn bositif mewn perthynas â mannau casglu ar gyfer disgyblion uwchradd yn ddibynnol ar osod prosesau asesu risg perthnasol er mwyn cynnal diogelwch y plentyn. Bydd Asesiadau Risg yn cael eu cyflawni yn unol â Mesur Teithio Dysgwyr.

4. **Tocyn Teithio Rhatach**
   Mae'r wybodaeth flaenorol i rieni wedi bod yn eithaf amwys gan achosi penderfyniadau a chyngor anghyson. Mae hyn yn eglur yn awr, a phan nad yw plentyn yn gymwys ond bod seddau gwag ar y bws gallant wneud cais am docyn teithio rhatach er mwyn caniatáu iddynt deithio i'w dewis ysgol. Argymhellir y dylid cyfyngu hyn i gyfnod o 12 mis gyda chost resymol ar gyfer costau gweinyddol. Y pris ar hyn o bryd yw £50 y tymor.

4.12 Mae'r Amserlen yn Atodiad 5 yn amlinellu'r broses lawn a gynhaliwyd ar gyfer yr adolygiad

4.13 Mae'r siart llif yn Atodiad 6 yn amlinellu beth fydd y broses newydd ar gyfer cymhwysedd cludiant.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae'r cynnig yn cefnogi'r flaenoriaeth o **"Wella Addysg"** ac yn sicrhau hefyd fod y ddarpariaeth yn gost-effeithiol ac yn cynnig gwerth am arian.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Bydd y cynnig yn cael effaith uniongyrchol ar y Gwasanaeth Cludiant Teithwyr. Amcangyfrifir y bydd arbediad o tua £303 mil sydd wedi ei grynhoi yn y tabl isod. Mae manylion llawn y cynigion wedi eu dangos yn Atodiadau 2-4.

| | | | Cost per day £ | Potential Saving per day £ |
|---|---|---|---|---|
| **Appendix 3** | **Removal of Secondary Home to pick up point taxis** | per day | 671.50 | 671.50 |
| | | per year | 127,585.00 | 127,585.00 |
| **Appendix 4** | **Removal of Secondary Home to School taxis** | per day | 1,298.49 | 762.99 |
| | | per year | 246,713.10 | 144,968.10 |
| **Appendix 5** | **Removal of Primary Home to School taxis** | per day | 3,057.94 | 160.75 |
| | | per year | 581,008.60 | 30,542.50 |
| **Total Cost/Saving per day** | | | **5,027.93** | **1,595.24** |
| **Total Cost/Saving per year (190 days)** | | | **955,306.70** | **303,095.60** |

6.2 Sylwer y gall yr arbedion hyn fod yn destun newid gan ddibynnu ar ganlyniad yr adolygiad o lwybrau teithio peryglus.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid atodi Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau fel atodiad i'r adroddiad hwn.

7.1 Mae'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a wnaed mewn perthynas â'r polisi newydd yn dangos nad oes unrhyw grŵp dan unrhyw anfantais anghymesur o ganlyniad i'r newidiadau hyn.

7.3 Gellir gweld yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb llawn yn Atodiad 7.

## 8. Pa ymgynghori a wnaed gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?

8.1 Ymgynghorwyd yn llawn gyda'r holl fudd-ddeiliaid a nodwyd yn 4.3 uchod.

8.2 Fel rhan o'r ymgynghoriad, trafodwyd y cynigion a'r adborth a dderbyniwyd hyd yn hyn gyda'r Aelodau Etholedig yn y Cyngor Llawn a Phwyllgor Archwilio Cymunedau. Argymhellodd Aelodau'r Pwyllgor Archwilio'r canlynol:

(i) Dylid gweithredu mannau casglu canolog ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd yn unig
(ii) Roedd modd cael cyfnod ymgynghori hirach, fodd bynnag nid oeddent yn teimlo y byddai hyn wedi cynhyrchu unrhyw faterion eraill.
(iii) Dylid cadw'r categorïau ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg (Categori 1) ac ysgolion Dwyieithog (Categori 2) fel y mae ar hyn o bryd a thrin y ddau opsiwn yn gyfartal at ddibenion cyfrwng Cymraeg a chefnogi'r holl ysgolion i ddatblygu continwwm dwyieithog.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Cytunodd yr Aelodau Etholedig i adolygu'r Polisi Cludiant yn y Gweithdy Rhyddid a Hyblygrwydd i Aelodau a gynhaliwyd ym mis Mehefin eleni. Eglurwyd, gan fod y gwasanaeth yn gorwario ar hyn o bryd, mai bwriad yr adolygiad fyddai canfod arbedion er mwyn dod â'r gwasanaeth i sefyllfa o fod yn adennill costau. O'r herwydd, bydd yr arbedion posibl a nodwyd yn Adran 6.1 yn cael eu cadw o fewn y gwasanaeth er mwyn unioni'r diffyg parhaus yn y gyllideb. Bydd y sefyllfa'n cael ei monitro'n ofalus a bydd unrhyw arbedion y tu hwnt i'r hyn y mae ei angen i'r gwasanaeth adennill costau yn cael eu dynodi fel arbedion corfforaethol wrth bennu cyllidebau yn y dyfodol

**10. Pa risgiau sy'n bodoli, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Mae posibilrwydd cryf y gallai'r cynnig arwain at gyhoeddusrwydd anffafriol i'r Cyngor. Er mwyn lleihau'r risg hon, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau cyfathrebu clir gyda'r holl fudd-ddeiliaid.

10.2 Y risg o beidio a mabwysiadu'r polisi newydd yw y bydd y gyllideb yn parhau i gael ei gorwario ac ni fydd gennym bolisi eglur i reoli'r ceisiadau newydd.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Deddf Safonau a Sefydliadau Ysgolion (Cymru) 2013
Deddf Addysg 2002
Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009
Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008